Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus o gyfarfod arbennig o'r Cyngor Tref a gynhaliwyd
am 7 o'r gloch, 17 Mawrth 2020 yn Siambr y Cyngor

---

1. Presennol

Cadeirydd Cyng. R. Cadwalader
Cyng. Phil Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Angela Hughes; Cyng; Ffion Gwyn

Clerc: Dr Catrin Jones

2. **Ymddiheuriadau**: Cyng. R T Price; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Sian Williams

Croesawyd y Cyng. Ffion Gwyn i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor Tref. Nodwyd ei bod wedi llenwi ei ffurflen derbyn swydd. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am ddod i'r cyfarfod arbennig yn sgil argyfwng digynsail sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemic coronafeirws.

3. **Datgan diddordeb**

4. Cynllunio Brys y Cyngor Tref yn Sgil y Pandemic Coronafeirws gan gynnwys ystyriaeth o gyngor swyddogol dderbyniwyd.

a. Roedd canllawiau Un Llais Cymru ddyddiedig 16 Mawrth wedi ei gylchredeg (a oedd yn cynnwys cyfeiriad at safle We Iechyd Cyhoeddus Cymru a dolen i Lywodraeth Cymru a hefyd canllawiau gan Gyngor Gwynedd.

b. Roedd Cynllun Busnes Brys Gweithredu Coronafeirws Cyngor Tref Criccieth a oedd yn cynnwys polisi dirprwyo awdurdod a'r newidiadau dros dro i'r Rheoliadau wedi ei gylchredeg ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor Tref Drafft.

Penderfyniad:

- I gymeradwyo'r Cynllun Busnes Brys Gweithredu a'i fabwysiadu ar unwaith
- I gymeradwyo polisi Dirprwyo Awdurdod a'r newidiadau dros dro i'r Rheoliadau Ariannol a'u mabwysiadu ar unwaith

c. Cymorth yng Nghymuned Criccieth

Ystyriwyd pa fesurau fedr y Cyngor Tref rhoi yn eu lle i gefnogi trigolion bregus y dref. Mae'r rhain yn cynnwys trigolion hŷn a rheini sydd â phroblemau iechyd yn barod ac sydd â llai o opsiynau ar gyfer cymdeithasu os ydynt yn byw ar ben ei hunan. Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Age Cymru Gwynedd a Môn gan fod arian penodol ganddynt drwy benderfyniad y Cyngor Tref blynyddoedd yn ôl i'w weinyddu i gefnogi trigolion hŷn anghenus yng Nghriccieth. Nodwyd bod angen amddiffyn pobl fregus mewn sefyllfa o'r fath ac mae'r ffordd ymlaen oedd gosod cynllun cynaliadwy pwrpasol yn ei le drwy help Age Cymru Gwynedd a Môn gan gydweithio gyda grwpiau o wirfoddolwyr sydd yn barod i help yn y gymuned. Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan gwmni yswirwyr y Cyngor Tref y byddai'r polisi yn amddiffyn Cynghorwyr sy'n ymddwyn ar feddwl da.

Penderfyniad

Bod y Cyng. Ian Rees, Cyng. Nan Davies Hughes a'r Cyng. Ffion Gwyn yn gweithio gyda Age Cymru Gwynedd a Môn i greu cynllun cynaliadwy a fydd yn cael ei gefnogi drwy ddefnydd arian o'r gronfa sydd ar gael i henoed Criccieth yng ngwyneb argyfwng coronafeirws. Bydd angen gwireddu'r cynllun drwy benodi rhywun sy'n gyfrifol am ei weinyddu a hefyd i gael tîm o wirfoddolwyr cymwys. Bydd angen dilyn polisi dirprwyo awdurdod y Cyngor Tref i'w gymeradwyo a chytuno ar y gwariant. Cytunwyd hefyd y

byddai'r Cyngor Tref yn talu am daflenni pwrpasol i hyrwyddo'r Cynllun ac i ddefnydd o facebook Hwb Criccieth i ddiwallu gwybodaeth i'r gymuned.

5. **Cofrestr Asesiad Risg y Cyngor Tref**
   Roedd cofrestr asesiad Risg ddiwygiedig y Cyngor Tref wedi ei gylchredeg.

   Penderyniad
   I fabwysiadu'r gofrestr ddiwygiedig.

6. **Materion caeedig (i aelodau'n unig)**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 o'r gloch